# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Committee Room 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Tachwedd 2020

Amser: 14.40 - 16.35

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6503

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Mark Isherwood AS<br>Delyth Jewell AS<br>Mandy Jones AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Jane Hutt AS, Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip<br>Chris Buchan, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

1.2. Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

1.3. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Dawn Bowden AS. Dirprwyodd Jenny Rathbone AS ar ei rhan yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

1.4. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai e'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Huw Irranca-Davies AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar y sector gwirfoddol - sesiwn dystiolaeth 7

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
- Chris Buchan, Pennaeth Polisïau'r Trydydd Sector a Chymunedau, Llywodraeth Cymru

2.2. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i ddarparu:

Gwybodaeth bellach gan Rwydwaith Amgylcheddol Sefydliadau'r Trydydd Sector ynghylch annog cymunedau i ddefnyddio gwasanaethau awyr agored;

Gwybodaeth bellach am y fenter Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Gohebiaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch trin gweithwyr o leiafrifoedd ethnig yn ystod pandemig y coronafeirws.

3.1.a. Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch trin gweithwyr o leiafrifoedd ethnig yn ystod pandemig y coronafeirws.

### 3.2 Gwybodaeth ychwanegol gan y Groes Goch Brydeinig ynglŷn ag effaith COVID-19

3.2.a. Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan y Groes Goch Brydeinig ynglŷn ag effaith COVID-19

### 3.3 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip mewn perthynas ag effaith COVID-19

3.3.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip mewn perthynas ag effaith COVID-19.

### 3.4 Gwybodaeth ychwanegol gan Helpforce Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mewn perthynas ag effaith COVID-19

3.4.a. Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan Helpforce Cymru a CGGC mewn perthynas ag effaith COVID-19

### 3.5 Ymateb i'r ymgynghoriad gan Sefydliad Prydeinig y Galon yng Nghymru mewn perthynas ag effaith COVID-19

3.5.a. Nododd y Pwyllgor ymateb i'r ymgynghoriad gan Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru mewn perthynas ag effaith COVID-19.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar y sector gwirfoddol – trafod y dystiolaeth a gafwyd.

5.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.